

Gorffennaf 2016



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Datblygu yn y dyfodol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Sut i ddweud eich dweud

Rydyn ni'n gwneud cynlluniau ar gyfer dyfodol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.



Bydd y cynlluniau hyn yn dod yn

Gynllun Datblygu Lleol.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio ar sut mae tir yn y Parc Cenedlaethol yn gallu cael ei ddatblygu.



Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthoch chi:

- sut rydyn ni'n gwneud y cynlluniau
- yr amserlen ar gyfer gwneud y cynlluniau
- sut y gallwch chi ddweud eich dweud



Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn dod o'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gallwch chi gael copi o'r Cytundeb Cyflenwi o:

www.arfordir-penfro.org.uk

Ffyrdd i ddweud eich dweud



Ar bob cyfnod allweddol (gweler t11) gallwch chi ddweud wrthon ni beth yw eich barn.

Mor belled, rydyn ni wedi:

- edrych ar yr hen Gynllun Datblygu Lleol 2010 i weld beth sy'n gweithio a beth sydd angen ei newid
- ysgrifennu sut fyddwn ni'n penderfynu beth i'w roi yn y Cynllun newydd



Gwnaethon ni gynnwys pobl eraill yn y gwaith hwn.

Rydyn ni eisiau gweithio gyda **chi** ar beth sy'n mynd i mewn i'r Cynllun newydd.



Hyd yn oed os nad ydych chi wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad o'r blaen, cymerwch ran y tro hwn.

Nid ydyn ni'n gallu addo y bydd pawb yn cael beth maen nhw ei eisiau, ond rydyn ni yn gallu addo:

- byddwn ni'n cymryd beth fyddwch chi'n ei ddweud o ddifrif
- byddwn ni'n anfon copi o'r adroddiad y byddwn ni'n ei ysgrifennu ar ôl i bawb ddweud wrthon ni beth maen nhw ei eisiau atoch chi, i chi gael gweld beth rydyn ni wedi'i wneud gyda'r hyn rydych chi wedi dweud wrthon ni.

Beth yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro?

Dyma fap o ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

(Gwyrdd tywyll)

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn bwysig oherwydd ei:

- **Ddaearyddiaeth**

Mae'n cwmpasu arfordir Penfro, Afon Daugleddau a bryniau'r Preseli.

- **Bywyd gwyllt**

Er enghraifft, mae ganddo boblogaeth adar môr, adar gwyllt ac adar hirgoes sy'n bwysig yn rhyngwladol

- **Amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol**

Er enghraifft, mae dros 80% o'r arfordir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac mae 14 o Ardaloedd Cadwraeth

- **Hanes ac archaeoleg**

Er enghraifft, mae 284 o henebion, 1200 o adeiladau rhestredig a threfi hanesyddol a Thirweddau Hanesyddol

- **Amaethyddiaeth, diwydiannau ynni, twristiaeth a hamdden**

Er enghraifft, Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n 299km


- **Pobl sy'n byw yma**



Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â sut mae tir yn gallu cael ei ddefnyddio.

Mae gwybodaeth yn y Cynllun yn dweud wrthon ni sut fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud am dir fydd yn effeithio ar ddyfodol ein trefi, pentrefi, arfordir a chefn gwlad.



Mae ein Cynllun Datblygu 2010 yn cynnwys polisiâu i:

- ddiogelu ein harfordir a'n cefn gwlad
- arwain datblygu tuag at ardaloedd penodol
- arwain a ddylai caniatâd cynllunio gael ei roi

Mae rhai pethau yng nghynllun 2010 wedi dyddio ac mae rhai nad ydyn nhw'n gweithio'n dda iawn.

Dyma pam mae angen eich help chi arnon ni i ysgrifennu Cynllun Datblygu Lleol.

Ein nodau

Bydd tri nod i'r Cynllun Datblygu Lleol:



1. Edrych ar ôl harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.



2. Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall mwy am ein Parc Cenedlaethol.

3. Diogelu llesiant economaidd a chymdeithasol y bobl sy'n byw yma.



Y “profion cadernid”

Rhaid i'r Cynllun Datblygu Newydd dyfu o wrando ar y gymuned, edrych ar y gyfraith a gwneud yn siŵr bod y cynllun y byddwn yn ei ysgrifennu yn gadarn.

Byddwn ni'n gwirio bod y cynllun yn gadarn drwy ddefnyddio'r **tri chwestiwn hyn**.

Pan fyddwch chi'n darllen unrhyw beth y byddwn ni'n anfon allan ar gyfer ymgynghori, gofynnwch i chi eich hun:



1. A yw hwn yn cyd-fynd â chynlluniau lleol swyddogol eraill (fel Cynllun Integredig Sengl Sir Benfro)?
2. A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol? A fydd yn mynd i'r afael â materion lleol?
3. A fydd y cynllun yn cyflenwi ein tri nod? A fydd datblygu yn digwydd yn y lleoedd iawn?

Os ydych chi'n credu mai'r ateb i unrhyw un o'r rhain yw “na” neu “efallai”, mae'n bwysig iawn i chi ddweud pam wrthon ni.



Cymryd rhan


Mae eich angen chi arnon ni er mwyn i ni allu deall beth sy'n bwysig i'r gymuned, ac er mwyn i ni allu meddwl gyda'n gilydd am ba fath o le y dylai'r Parc Cenedlaethol fod.

Mae ein hangen ni arnoch chi er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael y cynllun yn iawn, oherwydd bydd y Cynllun newydd yn effeithio ar ddyfodol y Parc Cenedlaethol a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma.

Y ffordd hawsaf i gymryd rhan yw gofyn i fod ar ein rhestr bostio. Byddwn ni'n rhoi'r newyddion diweddaraf i chi. Mae'r manylion ar gyfer bod ar ein rhestr bostio ar y clawr cefn.


Rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n clywed gan:

- Gynghorau cymuned a thref
- Cyrff fel y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Fforwm Arfordirol Penfro a'r Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyrdd swyddogol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, cynghorau lleol ac adrannau'r Llywodraeth
- Sefydliadau fel PAVS ac Undeb Amaethwyr Cymru



I fod ar ein rhestr bostio a chael y newyddion diweddaraf:

- Anfonwch e-bost at cynlluniauadatblygu@arfordirpenfro.org.uk gyda'ch manylion cyswllt
- Ffoniwch un ohonon ni ar 01646 624800



Mae llawer o ffyrdd i gymryd rhan. Os ydych chi a'ch ffrindiau, teulu, cymdogion neu gydweithwyr yn teimlo'n gryf am rywbeth, gallwch ddechrau deiseb a'i hanfon aton ni.

Mae angen i ni glywed gan aelodau'r cyhoedd:

- o bob cefndir
- unrhyw oed
- gydag unrhyw reswm dros deimlo bod y Parc Cenedlaethol yn bwysig



Gall **unrhyw un** gymryd rhan. Nid oes rhaid i chi fyw neu weithio ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae angen i chi:

- deimlo bod ein Parc Cenedlaethol yn bwysig
- gael barn ar ei ddyfodol.

A oes gennych chi syniadau penodol ar sut y dylai darn o dir neu ardal yn y Parc Cenedlaethol gael ei ddefnyddio?




Mae gwefan Cymorth Cynllunio Cymru, www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy yn egluro'r geiriau mewn coch.



Dywedwch wrthon ni os ydych chi am ddatblygu darn o dir. Nid oes rhaid i chi fod yn berchen ar y tir. Dywedwch wrthon ni drwy lenwi **ffurflen gyflwyno Safle Ymgeisiol**.



Byddwn ni'n ystyried a yw eich syniad yn cyd-fynd â'r cynllun a rheolau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Byddwn ni'n rhoi'r safle hwnnw ar y **Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol**. Bydd angen i chi wneud **Arfarniad o Gynaliadwyedd** i wirio a yw'r safle yn addas ar gyfer y math o ddefnydd sydd gennych mewn golwg. Gallwch chi gael cymorth i wneud hyn drwy **Cymorth Cynllunio Cymru**. Mae eu manylion cyswllt ar y clawr cefn.



Os byddwch chi'n anfon eich ffurflen aton ni ystod y **Cyfranogiad Cyn-Adneuo** (Awst 2016 i Dachwedd 2016), gallai eich cynllun ddod yn rhan o'r Cynllun newydd. Os byddwch chi'n aros tan yn hwyrach, mae llawer llai o bosibilrwydd y byddwn yn gallu cynnwys eich safle.

Os ydych chi'n credu efallai bod cynnig a gafodd ei wrthod y tro diwethaf yn addas nawr, dywedwch wrthon ni amdano eto.

Am ddweud wrthon ni am faterion allweddol yr ydych chi'n credu y dylen ni eu hystyried?



Mae gwefan Cymorth Cynllunio Cymru, www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy yn egluro'r geiriau mewn coch.



Ym mis Ebrill/Mai 2017, byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n gofyn i chi am eich barn am ein syniadau ar gyfer beth ddylai fod yn y cynllun datblygu lleol.



Rydyn ni am i chi ddweud wrthon ni am unrhyw faterion allweddol yn enwedig os:

- rydych yn credu efallai nad ydyn ni wedi meddwl amdanyn nhw
- rydych yn credu bod angen newid y strategaeth

Nid oes rhaid i chi aros tan Ebrill 2017 i ddweud wrthon ni am faterion allweddol rydych yn credu y dylen ni eu hystyried.

Cyfnodau allweddol


Cyfnodau allweddol ar gyfer cymryd rhan a dweud wrthon ni am eich syniadau

Pryd fydd hyn yn digwydd?

Sut fyddaf yn clywed am hyn?

Gofyn am gynigion datblygu (**Cyfranogiad Cyn-Adneuo**)

Awst 2016 i Dachwedd 2016



Gofyn i bobl roi sylwadau ar strategaeth arfaethedig y cynllun newydd a mapiau yn dangos sut bydd tir yn cael ei ddefnyddio a'r dystiolaeth y mae hyn yn seiliedig arni (**Ymgynghoriad Cyd-adneuo**)

Ebrill/Mai 2017



Gofyn i bobl roi sylwadau ar y cynllun cyflawn, polisiau a mapiau yn dangos sut y bydd tir yn cael ei ddefnyddio a'r dystiolaeth y mae hyn yn seiliedig arni (**Adneuo**)

Ebrill/Mai 2018



Dweud wrth Lywodraeth Cymru sut rydyn ni am i'r tir gael ei ddefnyddio (**Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru**)

Rhagfyr 2018



Gwybodaeth ar ein gwefan



Datganiad i'r wasg a hysbysiad yn y Pembrokeshire Herald



Gwybodaeth i bawb ar ein rhestr bostio



Dogfennau ar gael yng Nghanolffannau Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Mynediad i'r we ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a swyddfeydd y Parc Cenedlaethol

Erbyn y cyfnod hwn, byddwch chi wedi gwneud eich gwaith gyda ni ar y Cynllun Datblygu Lleol.

Y ddau gam olaf yw:

- Gwirio gan arolygydd a yw ein cynllun yn gadarn ([Archwilio](#)).
Bydd hyn yn digwydd yn ystod Gwanwyn 2019.
- Cytuno'n derfynol ar y Cynllun Datblygu Lleol ([Mabwysiadu](#)).
Bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd 2019.



Manylion cyswllt



Tîm Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Richard James (Cynllun Datblygu Lleol)

Sarah Middleton (Cynllun Datblygu Lleol)

Martina Dunne (Cynllun Datblygu Lleol)

Phillip Barlow (Arfarniad Cynaliadwyedd)



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

Sir Benfro

SA72 6DY



Ffôn: 01646 624 800

Ffacs: 01646 689076

E-bost: cynllunaudatblygu@arfordirpenfro.org.uk

gwefan: www.arfordirpenfro.org.uk



I fod ar ein rhestr bostio a chael y newyddion diweddaraf:

- Anfonwch e-bost at cynllunaudatblygu@arfordirpenfro.org.uk gyda'ch manylion cyswllt
- Ffoniwch un ohonon ni ar 01646 624800

Cymorth Cynllunio Cymru



Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen annibynnol.

Maen nhw'n cynnig cyngor annibynnol, proffesiynol am ddim i grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd.



Cymorth Cynllunio Cymru

Llawr Cyntaf

174 Ffordd yr Eglwys Newydd

Y Waun

Caerdydd

CF14 3NB



Ffôn: 029 2062 5000

E-bost drwy'r wefan:

www.planningaidwales.org.uk/english-contact-us/?lang=cy

Cafodd y llyfryn hwn ei gyd-gynhyrchu gan Gwmni Buddiant Cymunedol Barod ac aelodau o'r cyhoedd, ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Gorffennaf 2016